Sue O'Leary

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Byddem yn DWLI cael y cyfle i fod yn ymddiriedolwr gydag CGGC i'ch cynrychioli chi fel aelodau, gan ddefnyddio cydberthnasau, profiad a dylanwad ar y cyd i adeiladu trydydd sector cynaliadwy cryfach ar gyfer pobl Cymru.

Rwy'n arweinydd brwdfrydig, strategol a chysylltiedig sy'n canolbwyntio ar werthoedd. Caf fy ngyrru gan ymdeimlad cryf o gyfiawnder cymdeithasol i drechu anghydraddoldeb ac mae gennyf brofiad mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Rwyf yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer elusen ffederal Mind, sy'n gweithio mewn cydweithrediad a phartneriaeth am ganlyniadau iechyd meddwl gwell, profiad a mynediad i fuddiolwyr.

Rwy'n deall y cyd-destun polisi yng Nghymru, yr heriau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i'n sector ni – cynaliadwyedd, anghydraddoldeb, ddim yn cael ein trin fel partner cyfartal, ac rwy'n awyddus i chwarae fy rhan i newid hynny.

Rwy'n cyd-gadeirio Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, gan ddwyn arweinwyr ynghyd i graffu ar y llywodraeth a dylanwadu arni, cefnogi profiad bywyd a phledio'r achos dros fuddsoddi yn ein sector.

Rwy'n credu mewn ymdrechion cyfunol; rwy'n berthynol ac wedi cyflawni llawer mewn undod a phartneriaeth. Rwyf eisiau chwyddo llais ein sector, gwthio am newidiadau i'r system a dangos y datrysiadau sydd gennym ni fel sector. Rwyf eisiau dangos ein heffaith a'n cryfder, gyda'n gilydd fel cyd-ymddiriedolwyr ac aelodau CGGC.